| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **02 Rhagfyr 2024** |
| **TEITL** | **Cyllideb Addysg a Dyraniadau Ysgolion** |
| **PWRPAS** | **Yn dilyn cais cyfarfod 30/09/2024** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion** |

**Cefndir**

Yn dilyn cais yn y cyfarfod diwethaf, dyma grynhoi sefyllfa gyllidol yr Adran Addysg, gwerth a fformiwlau dyraniadau ysgolion am 2024/25.

1.1 Mae cyllideb Addysg yn £117,900miliwn gyda £96,627miliwn (82%) yn cael ei ddatganoli i ysgolion. (atodiad 1)

1.2 Mae'r eglurhad dyraniad (atodiadau 2 ayb) yn dangos y data sydd yn cael ei gasglu ar gyfer pob ysgol, sail pob llinell o'r fformiwla sy'n cael ei ddatganoli yn ogystal a gwerth pob llinell e.e. Cynradd llinell 1 – Athrawon £23.3miliwn, Uwchradd llinell 1 – Staff Dysgu £25.8miliwn ac yn y sector Arbennig llinell 1 - £4.5miliwn.

1.3 Nifer disgyblion ydi'r prif yrrwr yn y fformiwla ac mae cynnydd neu leihad mewn niferoedd yn gallu cael effaith sylweddol ar gyllid ysgol unigol. Mae grantiau Llywodraeth Cymru hefyd yn cael eu gyrru gan nifer digyblion. Mewn cyfnod lle ydan ni'n gweld lleihad mewn nifer disgyblion, mae hyn yn achos o bryder yn symud ymlaen.

1.4 Gan gymryd nad oes cynnydd mewn adnoddau, mae unrhyw adolygu neu newid mewn fformiwla pob amser yn arwain at enillwyr a collwyr.